



Arolwg Natur Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg - Astudiaeth Achos

Ym mis Ebrill 2021, ymchwiliodd disgyblion o Gyngor Ysgol Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (YGBM), swyddogion o dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor a'r contractwr ISG Construction i'r cynefinoedd newydd ar safle YGBM.

Mae'r arolwg yn dilyn arolwg cychwynnol o'r basnau cadw a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020.

Roedd tri nod i'r ymchwiliad:

- I weld sut roedd y glasbrennau newydd eu plannu yn ymsefydlu
- Monitro rhywogaethau planhigion yn ardal y ddôl
- Monitro bywyd gwyllt yn y basnau cadw

Beth wnaethom ni?

Cynhaliodd swyddogion o dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor ac ISG Construction arolygon o'r basnau cadw a'r ardaloedd cynefin cyfagos gyda disgyblion o Gyngor Ysgol YGBM.

Yn gyntaf, trafodwyd pam mae creu lle i natur yn bwysig a pha blanhigion a bywyd gwyllt y gallem ddisgwyl eu gweld yr adeg hon o'r flwyddyn.

Yna cawsom olwg ar y glasbrennau coed sydd newydd eu plannu a thrafod pa fywyd gwyllt a allai ddefnyddio'r coed wrth iddynt aeddfedu.



Defnyddiodd y disgyblion daflenni gwybodaeth Coed Cadw i adnabod y glasbrennau.



Rhoddwyd y glasbrennau gan Coed Cadw fel rhan o'u menter 'Coed am Ddim i Ysgolion'. Dewiswyd y rhywogaeth yn benodol i helpu bywyd gwyllt ac maent yn gymysgedd o Dderwen, Coed Criafol, Bedwen, Draenen Wen, Collen a Draenen Ddu.



Nesaf, defnyddiodd y disgyblion daflenni adnabod Plantlife a'r Cyngor Astudiaethau Maes i fapio'r ddôl o amgylch y basnau cadw; gan gynnwys 'Pa mor lach yw eich Dôl?' a Thaflenni Sbotio.

Daeth y disgyblion o hyd i ystod amrywiol o blanhigion, gan ddangos manteision torri cyn lleied o wair â phosibl. Mae'r planhigion a nodwyd yn cynnwys;

- Blodyn Menyn
- Creulys
- Dant y llew
- Danadl Poethion
- Deilen Dafol
- Eidral
- Feronica Gyffredin y Maes
- Glaswellt ryg
- Llygaid y Dydd
- Llyriad
- Meillionen
- Melynydd
- Milddail
- Pig yr Aran Disgleiriog
- Rhawn yr Ardir
- Ysgall



Buom hefyd yn trafod y pentyrrau boncyffion newydd neu'r 'hibernaculums' a grëwyd o amgylch ymylon y basnau cadw.

Crëwyd y cynefinoedd hyn er mwyn i bryfed ac ymlusgiaid gael cysgod ac aildefnyddio pren a gymerwyd o rannau eraill o'r safle.



Yn olaf, fe wnaethom arolygu'r basnau cadw gan ddefnyddio taflenni adnabod o'r RSPB ac Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw. Roedd llawer o arwyneb y dŵr wedi'i orchuddio ag algâu sy'n gyffredin wrth sefydlu cynefinoedd dyfrol; dylai hyn gilio dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r cylch maetholion sefydlogi a mwy o lystyfiant ddatblygu.

Mae'r cynefinoedd hyn yn rhan o'r strategaeth rheoli dŵr gynaliadwy ehangach ac mae ganddynt lefelau dŵr amrywiol yn dibynnu ar lawiad diweddar (h.y. gallant newid o fod yn gwbl sych i eithaf llawn).



Daethom o hyd i nifer o rywogaethau dyfrol yn y basnau, gan gynnwys;

- Ceffyl dŵr bolwyn bach
- Chwilen ddŵr
- Corryn Dŵr
- Nymff Gwas y Neidr
- Rhiain y Dŵr

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod y cynefinoedd yn dod yn adnoddau gwerthfawr ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwylt.



Beth ddysgon ni a beth fyddwn ni'n ei wneud yn y dyfodol?

Ein prif gasgliad yw bod yr ardaloedd cynefin mewn cyflwr da i adeiladu arnynt, mae nifer gadarnhaol o rywogaethau dangosol planhigion a bywyd gwylt.

Byddwn yn ailedrych ar y cynefinoedd ar gyfer arolygon pellach dros y blynyddoedd nesaf i weld y cynnydd a wnaed.

Gobeithiwn y bydd disgyblion YGBM yn parhau i gynnal arolygon ac yn mwynhau dysgu a chael hwyl gyda'r adnoddau hyn.



Os hoffech gael gwybod mwy am archwilio tir eich ysgol neu gynnal sesiynau ymgysylltu ag ecoleg, cysylltwch â'r partneriaethau natur lleol neu dimau Ysgolion yr 21ain ganrif:

eshaw@valeofglamorgan.gov.uk

21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

